

Dadansoddi datblygiad negyddu yn y Gymraeg:
Rhai problemau wrth ddehongli testunau Cymraeg Canol a Chymraeg Diweddar

David Willis

Adran Ieithyddiaeth, Prifysgol Caergrawnt

RHAGYMDRODD

- mae system negyddu'r Gymraeg wedi newid yn sylweddol ers Cymraeg Canol (o leiaf)
- ar gefndir ieithoedd Ewrop (ac y tu hunt) mae'r newidiadau yn dilyn patrymau a welir yn fynych mewn gwahanol ieithoedd; felly, nid newidiadau ar hap ydynt
- dyw'r newidiadau ddim wedi'u cyfyngu i un cyfnod penodol; mae'r newidiadau yn effeithio ar bob ran o'r system negyddu ac yn digwydd yn gyson dros gyfnod hir
- er bod cymalau negyddol yn ymddangos yn fynych mewn testunau, mae'r newidiadau yn effeithio ar statws (cystrawennol) ac ystyr elfennau unigol, felly...
- i olrhain ac i esbonio'r newidiadau mae angen maint sylweddol o ddata, digon i allu cymharu systemau negyddol mewn nifer fawr o destunau dros sawl cyfnod
- mae corpora testunau electronig yn mynd rhan o'r ffordd i hwyluso'r math hwn o ymchwil

Strwythur y cyflwyniad

Rhan 1: amlinelliad o brif gyfnewidiadau yn system negyddu'r Gymraeg ar sail tystiolaeth destunol;

Rhan 2: trafod sut rydyn ni'n gwybod am y datblygiadau hyn a'r anawsterau wrth gasglu data o'r testunau a'i ddehongli

1 Y NEWIDIADAU CYMRAEG YN EU CYD-DESTUN TRAWSIEITHYDDOL

1.1 Cylch Jespersen

- proses ieithyddol sy'n creu adferf negyddol newydd sy'n disodli'r negydd gwreiddiol

The history of negative expressions in various languages makes us witness the following curious fluctuation: the original negative adverb is first weakened, then found insufficient and therefore strengthened, generally through some additional word, and this in its turn may be felt as the negative proper and may then in course of time be subject to the same development as the original word. (Jespersen 1917: 4)

- wedi digwydd mewn:

Ffrangeg (*pas* 'cam, camre, ôl' yn cryfhau ac yn disodli'r negydd *ne* a etifeddwyd o'r Lladin)

Almaeneg Uchel Canol *en* ... *nicht* Iseldireg Canol *en* ... *niet*

Saesneg Canol *ne* ... *no(ch)t* Hen Norseg

Arabeg *mā* ... *-š* Berber, llawer o ieithoedd gorllewin a chanol Affrica

Celteg: Cymraeg *ni(d)* ... *ddim* Llydaweg *ne* ... *ket*

Patrymau newid (gweddol) sefydlog mewn gwahanol ieithoedd:

Cyfnod I. Rhoddir geiryn o flaen y ferf i negyddu gosodiad, *ny(t)* mewn Cymraeg Canol:

© David Willis. 2008.

Celtic negation in historical and crosslinguistic perspective (AHRC Research Leave)
The development of negation in the languages of Europe (AHRC Research Grant AR119272)

- (1) ...ny cheffy di varch gennyf i.
 NEG get.PRES.2S you horse with.1S me
 ‘...you will not get a horse from me.’ (Ystoryaeu Seint Greal 1940)

Cyfnod II.

- (yn ôl Jespersen) y geiryn yn gwanhau ac yn cael ei gryfhau gan ryw elfen arall
- mae'r elfen gryfhaol yn ddewisol ar y dechrau (cyfnod IIA)
- mae'r elfen gryfhaol yn dod yn orfodol yn y pen draw (cyfnod IIB)

Yn y Gymraeg: (d)dim, enw yn golygu 'peth, gwrthrych' > Cymraeg Canol rhagenw amhendant 'anything, unrhyw beth' > elfen gryfhaol mewn brawddegau lle na ellir ei ddadansoddi fel gwrthrych (neu oddrych) y ferf.

Cyd-destunau ceidwadol:

(i) gwrthrych:

- (2) Ac ny mynnwys ef dim. (gwrthrych)
 and NEG want.PAST.3S he anything
 ‘And he didn’t want anything.’ (Pedeir Keinc y Mabinogi 27.10–11)

(ii) cyflenwad i ferf llwyddo, berf gofalu, neu berf diwygio (*tygyaw (tycio)*, *diwygyaw (diwygio)*) yn mynegi i ba raddau mae rhywbeth yn llwyddo, i ba raddau mae'n bwysig, neu i ba raddau mae'n cael ei ddiwygio:

- (3) Ny thalwys idaw hynny dim...
 NEG pay.PAST.3S to.3MS this anything
 ‘And this didn’t help him in any way (to any extent).’
 (Ystorya de Carolo Magno 99.23)

Patrwm newydd mewn testunau o ddiwedd y 13eg ganrif ymlaen (dim perthynas rhwng *dim* a'r ferf) (Willis 2006):

- (4) A gwedy gwelet o 'r benhin hynny ny chyffroas arnaw dim...
 and after see.INF of the king that NEG agitate.PAST.3S on.3MS at.all
 ‘And after the king saw that, he did not become agitated (in the least)...’
 (Brenhinedd y Saesson 70.9–10)
- (5) A phan weles ynteu daruot llad y varch, ny
 and when see.PAST.3S he PERF.INF kill.INF 3MS horse NEG
 lidiawd dim yr hynny...
 become.angry.PAST.3S at.all despite that.NEUT
 ‘And when he saw that his horse had been killed, he still didn’t get angry (in the least).’
 (Ystoryaeu Seint Greal 2874)

- gwelodd Jespersen wendid seinegol y geiryn negyddol rhagferfol fel ysgogiad y gylch ('cadwyn lusgo' neu *drag chain*)
- tueddir heddiw i feddwl taw'r duedd i or-bwysleisio'r negydd sydd y tu ôl i Gylch Jespersen ('cadwyn wthio' neu *push chain*)
- mae siaradwyr yn creu ffordd newydd i bwysleisio'r negydd fel Cymraeg Diweddar o *gwbl*
- mae adferfau fel o *gwbl* yn pwysleisio'r negydd, gan gyfleu'r ystyr nad yw'r digwyddiad neu'r cyflwr a ddisgrifir wedi digwydd hyd yn oed i'r radd leiaf:

- (6) Dyw Ifan ddim yn gwyllo teledu. NEGYDDU SYML
 NEG.be.PRES.3S Ifan NEG PROG watch.INF television
 ‘Ifan doesn’t watch television.’
- (7) Dyw Ifan ddim yn gwyllo teledu o gwbl. NEGYDDU PWYSLEISOL
 NEG.be.PRES.3S Ifan NEG PROG watch.INF television at.all
 ‘Ifan doesn’t watch television (at all, in the least, even to the least extent).’

- mae adferfau fel hyn y datblygu yn aml

- weithiau maen nhw'n dod yn fwy aml eu defnydd dros nifer o genedlaethau tan colli eu newydd-deb a'u nawws bwysleisiol
- felly maen nhw'n dechrau mynegi'r negydd yn syml (yn ddi-bwyslais)
- erbyn hyn, mae siaradwyr yr iaith wedi creu ffurf neu ffurfiau newydd i gyfleu pwyslais

· ar yr adeg gynharach, defnyddir yr adferf pwysleisiol mewn cyd-destunau di-gadarnhaol ('cyd-destunau polaredd negyddol', *negative polarity contexts*): brawddegau negyddol, cwestiynau, ar ôl 'rhy', 'pawb' a 'pob', mewn cymalau cymharol a.y.y.b.:

- (8) Ydy Ifan yn gwylio teledu o gwbl?
 be.PRES.3S Ifan PROG watch.INF television at.all
 'Does Ifan watch television at all?'
- (9) Mae Ifan yn rhy ifanc i wyllo teledu o gwbl.
 be.PRES.3S Ifan PRED too young to watch.INF television at.all
 'Ifan is too young to watch television at all.'
- (10) *Mae Ifan yn gwylio teledu o gwbl.
 be.PRES.3S Ifan PROG watch.INF television at.all
 ('Ifan watches television at all.')

· dyna swyddogaeth *dim* yn y testunau Cymraeg Canol sy'n ei ddefnyddio i gryfhau'r negydd:

- (11) Ac yno y wylaw a orugant y edrych a allei
 and then 3MS watch.INF PRT do.PAST.3P to look.INF PRT can.IMPF.3S
 ymddidan dim ac wynt.
 converse.INF at.all with them
 'And then they watched him to see whether he could converse with them at all.'
 (*Ystoryaeu Seint Greal* 5213)

· yn ddiweddarach mae (*d*) *dim* yn newid y cyd-destun ieithyddol lle mae'n ymddangos:

- Cyfnod IIA: yn ddewisol mewn brif gymalau negyddol
 yn bosib mewn cymalau di-gadarnhaol (holiadol, cymharol, amodol)
- Cyfnod IIB: yn orfodol (neu yn fwy gorfodol) mewn brif gymalau negyddol
 yn amhosib mewn cymalau di-gadarnhaol sy ddim yn negyddol

Mae felly yn dod:

- yn negyddol yn hytrach nac yn ddi-gadarnhaol
- yn ddi-bwyslais (syml) yn hytrach nac yn bwysleisiol

Cyfnod III. Mae'r geiryn o flaen y ferf yn cael ei hepgor (cyfnod IIIA), gan ddiflannu'n llwyr o'r iaith yn y pen draw (cyfnod IIIB):

- (12) Cheiff dynion ar fusness ddim eiste 'n hir, Na
 can.PRES.3S men on business NEG sit.INF PRD long NEG.COMP
 fernir, 'n hwy mewn Tafarneu...
 judge.PRES.IMPERS them in taverns
 'Men on business can't sit for long without them being judged in taverns...'
 (*Tri chryfion byd* 684) (1789)
- (13) Mi roedd hi yn discwyl iddo fo ei chymeryd hi
 PRT be.IMPF.3S she PROG expect.INF to.3MS him 3SF take.INF her
 ac wneist [sic = wneiff] o ddim.
 and do.FUT.3S he NEG
 'She was expecting him to take her but he won't.'
 (Bangor Consistory Court, 1778, Denio & Penmorfa, Suggett 1983)

1.2 Y gylch ragenwau negyddol

Gwelir yr un tueddiadau gyda rhagenwau a maintolion negyddol:

· ffurfiau pwysleisiol yn colli eu naws a'u ffurf bwysleisiol e.e. *dim yn y byd* 'anything at all' > *dim byd* 'nothing', *neb ryw* 'any kind of ... at all' > 'any' (Cymraeg Canol)

- (14) ...am nad oedd ef yn kasav **dim yn y byd**
 for NEG.COMP be.IMPF.3S he PROG hate.INF anything in the world
 yn gymaint a medd-dod.
 PRED so.much as drunkenness
 '...since he hated nothing in the world (nothing at all) as much as drunkenness.'
 (*Gesta Romanorum* 1889) (16eg ganrif)
- (15) Heb feddwl **dim yn y byd** ar droed, A'm Greuawdwr erioed...
 without think.INF anything in the world on foot about creator ever
 '...without thinking anything (at all) (on foot) about the Creator ever...'
 (*Tri chryfion byd* 1359) (1789)
- (16) fel na cheis i ddim amser i syfenu **dim byd**.
 so.that NEG.COMP get.PAST.1S I any time to write.INF anything
 '...so that I didn't get any time to write anything.' (*Llythrau 'rhen ffarmwr* 5.3-4) (1847)

· ffurfiau'n dod yn annatod negyddol e.e. *dim* 'anything' > 'nothing', *neb* 'anyone' > 'no one'
 · ffurfiau newydd i adnewyddu'r hen eitemau e.e. *unrhyw beth* yn cymryd lle *dim (byd)* mewn cymalau di-gadarnhaol

Glos Saesneg	Cymraeg Canol	Cymraeg Diweddar (Ilafar)
'any X, no X'	<i>dim</i> (X) 'any' (enw cynnull) <i>un</i> (X) 'any' (enw rhif) <i>yr un</i> (X) 'any' (enw rhif, aelod o grŵp) – <i>neb</i> (X) 'any' [<i>neb ryw</i> 'any kind' > 'any'] [<i>dim o</i> (X) 'any of' > 'any']	<i>dim</i> (X) 'no' (pob enw) – ' <i>run</i> (X) 'no, not a single' (enw rhif) <i>unrhyw</i> (X) 'no' (pob enw) – – [<i>mo</i> 'geiryn i ddynodi gwrthrych negyddol']
'anything, nothing'	<i>dim</i> 'anything' [<i>neb ryw dim</i> 'anything']	<i>dim</i> 'nothing' <i>dim byd</i> 'nothing' <i>unrhyw beth</i> 'anything' (<i>rhywbeth</i> 'something')
'anyone, no one'	<i>neb</i> 'anyone' <i>dyn</i> 'person' > 'anyone' (<i>un dyn</i> > <i>undyn</i> 'anyone')	<i>neb</i> 'no one' – (<i>undyn</i> 'anyone') <i>unrhyw un</i> 'anyone' (<i>rhywun</i> 'someone')

Tabl 1. Braslun o ddatblygiad rhagenwau a maintolion amhendant / negyddol.

2 I BA RADDAU MAE'R TESTUNAU YN EIN GALLUOGI I OLRHAIN Y DATBLYGIADAU HYN?

- argraffiadau printiedig testunau hanesyddol (y corpws traddodiadol)
- Rhyddaith Gymraeg o Lawysgrifau'r 13eg Ganrif (Isaac & Rodway 2002)
- [· Rhyddiaith Gymraeg 1350–1425 (Thomas, Luft & Smith 2007)]
- Corpws Hanesyddol yr Iaith Gymraeg 1500–1850 (*CHIG*) (Mittendorf & Willis 2004)
- Eighteenth Century Collections Online, 1700–1800 (llyfrau printiedig yn unig)

2.1 Cymraeg Canol

(1) Beth yw statws *dim* mewn gwahanol testunau Cymraeg Canol?

- o gymharu testun sydd wedi'i gyfieithu â'r gwreiddiol, mae modd cael argraff mwy fanwl o ystyr arfaethedig y cyfieithydd
- ydy'r cyfieithiadau'n dilyn y Ffrangeg neu'r Lladin yn rhy gaeth?
- defnyddir *o dim* weithiau yn *Ystoryaeu Seint Greal* ac yn 'Rhamant Otuel' (*Ystorya de Carolo Magno*) i gyfieithu Hen Ffrangeg *de riens*:

(17) 'A unbenn', heb y Galaath, 'nyt anghenreit ytti wrthyf i yma o dim...
 voc lord QUOT Galâth neg necessity to.you of.1s me here of anything
 'Lord,' said Galâth, 'you have no need of me here (for any reason)...' (YSG 939-40)

- mae traddodiad copïo testunau yn gallu cuddio cyfnewidiadau ieithyddol
- mae yna lawer o destunau Cymraeg Canol a gopiwyd ar ôl i'r *dim* newydd ddatblygu heb fod yn adlewyrchu'r ffurf newydd (*Pedeir Keinc* a thestunau ceidwadol eraill)

- mae copïo'n gallu bod o ddiddordeb os yw'r ysgrifennydd yn cyflwyno cyfnewidiadau ieithyddol wrth gopïo:

(18) A gwr du mawr a wely ym penn yr orsedd ny bo
 and man black big REL see.pres.2s at end the stage NEG be.PRES.SUBJ.3S
 llei Llyfr Gwyn: ø no deuwr o wyr y byt honn...
 Jesus 20: dim
 Llyfr Coch: o dim
 less (at.all) than two.man of men the world this
 '...and you will see at the end of the mound a big dark man who is no smaller (in any way) than two men of this world...' (Owein 107-8)

(2) Ydy'r amrywiaethau'n adlewyrchu gwahaniaethau tafodieithol mewn Cymraeg Canol?

Er enghraifft, ydy defnyddio *neb ryw* yn lle *dim* neu *un* ar gyfer 'any' yn nodweddiadol o ryw dafodiaith benodol mewn Cymraeg Canol?

2.2 Cymraeg Diweddar

- sefydliad iaith ysgrifenedig safonol o'r 16eg ganrif ymlaen yn cuddio'r datblygiadau yn yr iaith lafar

Cylch Jespersen: dyw'r geiryn newydd *ddim* ddim yn dod yn orfodol yn yr iaith ysgrifenedig
 dyw'r geiryn rhagferfol *ni(d)* ddim yn diflannu o'r iaith ysgrifenedig

Pryd yn union y collwyd *ni(d)* ar lafar? Pryd yn union daeth *ddim* yn orfodol? Tystiolaeth bendant o hepgor *ni(d)* yn ail hanner y ddeunawfed ganrif ond beth am y cyfnod cyn hynny?

Mae'r anawsterau yn waeth ar gyfer y bedwaredd ganrif ar bymtheg:

- ffynonellau cynharach (anterliwtiau, baledi, cofnodion achosion llys) yn dod i ben, ond:
- nofelau Gymraeg
- llythyrau personol (llythyrau ymfudwyr cyn 1820 yn *CHIG*, rhai ar ôl yn y Project Cymru-Ohio)

- mae *ddim* wedi dod yn orfodol gyda rhagenw negyddol fel *dim byd*, ac eithrio lle byddai'r rhagenw negyddol yn dilyn *ddim* yn anuniongyrchol (cymh. Borsley and Jones 2005):

- (19) Dyw Ifan ddim yn gwneud dim byd.
neg.be.PRES.3S Ifan NEG PROG do.INF nothing
'Ifan isn't doing anything.'
- (20) Welodd Ifan ddim byd.
see.PAST.3S Ifan nothing
'Ifan saw nothing / Ifan didn't see anything.'
- (21) *Welodd Ifan ddim ddim byd.
see.PAST.3S Ifan NEG nothing
'Ifan saw nothing / Ifan didn't see anything.'

- mae'r patrwm (20) yn parhau (mwy neu lai) yr hyn a geir mewn Cymraeg Canol
- mae (19) yn newydd, yn cyflwyno *ddim* gan ddisodli (22).

- (22) Nid yw Ifan yn gwneud dim byd.
NEG be.PRES.3S Ifan PROG do.INF nothing
'Ifan isn't doing anything.'

Ydy (22) yn disodli (19) ar lafar ar yr un pryd ag y mae *ni(a)* yn dechrau cael ei hepgor? Dyna beth fyddwn ni'n ei ddisgwyl, ond, wrth gwrs, mae (22) yn parhau yn yr iaith lenyddol.

- yr un broblem gyda'r rhagenwau amhendant *dim* 'anything, nothing' a *neb* 'anyone, no one'
- maen nhw'n dod yn negyddol yn annibynnol o'u cyd-destun:

- (23) Os oes neb i redeg y rês yna ni fydd Grand Prix
if be.PRES.3S no.one to run.INF the race then NEG be.FUT.3S Grand Prix
Prydain yn cael ei gynnal.
Britain PROG get.INF 3MS hold.INF
'If there's no one to run the race, then the British Grand Prix won't be held.'
(<http://www.bbc.co.uk/cymru/chwaraeon/eraill/101312.shtml>)

- llai na 100 mlynedd yn ôl roedd *neb* yn rhydd i ymddangos mewn cyd-destunau digadarnhaol:

- (24) Oes neb yn y tŷ?
be.PRES.3S anyone in the house
'Is there anyone in the house?' (Fynes-Clinton 1913)

- mae'n well gan siaradwyr heddiw defnyddio *rhywun* neu *unrhwy un* i gyfleu'r ystyr hwn
- pryd dechreuodd y duedd hon?

I GLOI...

- mae technoleg newydd yn hwyluso ymchwil i hanes yr iaith ac yn gwneud ymchwil yn bosib ar raddfa ehangach nac o'r blaen
- mae ymchwil ar y Gymraeg felly yn cyd-fynd â / yn dilyn ieithyddiaeth hanesyddol sy'n defnyddio corpora electronig yn fwyfwy mewn ieithoedd eraill (Saesneg, Almaeneg yn enwedig)
- mae cymharu hanesion gwahanol ieithoedd (yn gytras neu beidio) yn gallu ein dysgu ni am y broses o newid ieithyddol: mae gwahanol ieithoedd yn dilyn yr un llwybrau
- mae hanes negyddu yn y Gymraeg yn enghraifft dda o gyfres o ddatblygiadau cysylltiedig lle mae'n bosib olrhain ac esbonio manylion y newidiadau ar sail tystiolaeth destunol fanwl
- serch hynny, dyw'r dechnoleg ddim yn newid natur y maes

CYFEIRIADAU

- Borsley, Robert D., and Jones, Bob Morris. 2005. *Welsh negation and grammatical theory*. Cardiff: University of Wales Press.
- Fynes-Clinton, O. H. 1913. *The Welsh vocabulary of the Bangor district*. Oxford: Oxford University Press.
- Jespersen, Otto. 1917. *Negation in English and other languages*: Historisk-filologiske Meddelelser 1. Copenhagen: A. F. Høst.
- Willis, David. 2006. Negation in Middle Welsh. *Studia Celtica* 40: 63-88.